Polisi Derbyniadau

Cwmpas a Phwrpas y Polisi

Yn sylfaen i'r polisi hwn y mae gweledigaeth y Coleg – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol. Bydd y polisi yn gymorth wrth i'r Coleg weithio tuag at ein gyrwyr allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Dyma'r egwyddorion a gorfforir yn y Polisi:

- Rhaid i'r rheiny sydd yn cael mynediad i Goleg Caerdydd a'r Fro **beidio â gwahaniaethu.** Byddwn yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i bob ymgeisydd a myfyriwr o safbwynt anghenion dysgu ychwanegol, sgiliau, tiwtorial a chymorth ariannol, a'r astudiaeth fwyaf priodol o ran lefel a dewis.
- Caiff dysgwyr gymorth i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** yn ystod eu hamser yn y Coleg, a hynny mewn amgylchedd sydd yn cael gwared ar anfantais, neu'n ei leihau, sydd yn gweithredu i fodloni eu hanghenion, ac sydd yn eu hannog i gymryd rhan.
- Delir gyda phob cais yn gyfrinachol, yn amserol, ar y cyd â chalendr Derbyniadau y Coleg.
- Byddwn yn rhoi cymorth i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddod yn eu blaen** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywyd.

Pwrpas y polisi yw gofalu bod Coleg Caerdydd a'r Fro yn gweithredu trefn gyson, a chynhwysfawr, ar gyfer derbyn i'r Coleg sydd yn deg, yn dryloyw ac yn rhoi cyfle cyfartal, ond yn cynnal uniondeb proffesiynol ar yr un pryd.

Mae'r Polisi yn berthnasol i bob ymgeisydd i'r Coleg, ond bydd y graddau y gellid gweithredu pob agwedd ar y Polisi Derbyniadau yn dibynnu ar ofynion cyrsiau unigol. Mae'r Polisi yn berthnasol i bob myfyriwr sydd yn gwneud cais am raglenni dysgu, neu sydd yn cofrestru arnynt, beth bynnag fo modd neu leoliad yr astudio.

Mae'r Polisi yn berthnasol i'r holl staff sydd â rôl yn ymwneud â derbyniadau yn y Coleg.

Mae'r Coleg yn arddel polisïau pob partner a sefydliadau breiniol ble mai nhw sydd yn bennaf recriwtio.

Datganiadau Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddatblygu gweithdrefnau i amlinellu sut y gweithredir gofynion y polisi yn ymarferol, ac a fydd yn llawn fodloni deddfwriaeth a chanllawiau sydd yn gysylltiedig.

- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau, yn rhan o'r gweithdrefnau cysylltiedig.

- Hyfforddi'r staff i gyd, yn llawn, ar y gweithdrefnau cysylltiedig a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sylfaenol; bydd yr hyfforddiant hwn ar lefel briodol i'w rôl.

- Rhoi gwybod i bawb y mae'r polisi hwn, a'r gweithdrefnau cysylltiedig, yn effeithio arnynt o ran eu cynnwys a'r goblygiadau iddynt; bydd hyn yn cynnwys partneriaid a sefydliadau breiniol.

- Darparu'r adnoddau angenrheidiol fel bod modd cyflawni'r gweithdrefnau cysylltiedig, a hynny mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

- Cofnodi a monitro data sydd yn gysylltiedig â'r polisi hwn a'i weithdrefnau, gan roi sylw arbennig i unrhyw ofynion allanol fel deddfwriaeth, canllawiau, ac ati.

- Adolygu'r data uchod i ystyried pa mor effeithiol yw'r polisi hwn, a'i weithdrefnau, o ran cynnal gwelliant parhaus.

- Sicrhau bod darpar ddysgwyr yn cael eu trin mewn ffordd sydd yn gyson, yn deg ac yn ddiduedd.

Proses Apelio i Ymgeiswyr

Pe bai ymgeisydd eisiau apelio yn erbyn cael ei wrthod ar gwrs coleg, yna dylid trafod hyn yn anffurfiol efo Pennaeth y Gwasanaethau i Fyfyrwyr, neu'r swyddog dynodedig yn y lle cyntaf.

Os na cheir datrysiad yn anffurfiol fel hyn, yna delir gydag apêl ffurfiol ysgrifenedig yn unol â Gweithdrefnau Canmol, Pryderon a Chwynion y Coleg.

Cyfrifoldebau

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am ofalu bod:

- Polisi a gweithdrefnau Derbyniadau y Coleg, yn cael eu gweithredu a'u dilyn yn llawn gan staff.
- Digon o adnoddau ar gyfer Derbyniadau.

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am ofalu bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi).

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn, a'i weithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r modd y caiff y gweithdrefnau eu defnyddio, a chefnogi staff i gadw at y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y Coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ac ati yn corffori'r gweithdrefnau derbyniadau.

Y Deon Gwella Ansawdd sydd yn gyfrifol am:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y gweithredir yn briodol i fonitro data sydd yn gysylltiedig â'r polisi hwn, a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfoethogi a gwella arferion.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin pob dysgwr ag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad nhw eu hunain yn tramgwyddo neu'n cael ei gamddeall.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi Derbyniadau a'r gweithdrefnau, a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu.
- Mynd i weithgareddau DPP ar agweddau sydd yn berthnasol i lwyddiant y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.

Myfyrwyr sydd yn gyfrifol am:

- Fynd i sesiynau anwytho a thiwtorial i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r polisi a'r materion sydd yn codi ohono.
- Ymddwyn mewn ffordd sydd yn arddel y Polisi, ar draws y Coleg.
- Cyfrannu at arolygon barn dysgwyr a grwpiau ffocws.

Deddfwriaeth a Chanllawiau

1. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, lluniwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion, yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

I'r ymgeiswyr hynny sydd yn datgelu euogfarn droseddol wedi'i/heb ei disbyddu, gofynnir iddynt gwblhau a chyflwyno ffurflen ddatgelu cofnod troseddol gyfrinachol, a chânt eu cyfeirio at y Tîm Diogelu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer pob ymgeisydd, ac arddel ein dyletswydd hefyd i ddarparu amgylchedd dysgu diogel ar gampysau'r Coleg.

Safonau'r Gymraeg

Nid yw'r polisi hwn yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, lluniwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion, yn ôl Safonau'r Gymraeg.

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Derbyniadau AB
- Datgeliad o Gofnod Troseddol
- Derbyniadau AU
- Cronfa Ariannol Wrth Gefn
- Teithio
- Gofal Plant
- Cwynion, sylwadau a chanmol
- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - Datgan
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Polisïau Cysylltiedig

- Datgeliad o Gofnod Troseddol
- Polisi Ffioedd
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cwynion, sylwadau a chanmol
- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Datgan

Lleoliad y Polisi a Mynediad Ato

Mae'r polisi ar y wefan/mewnrwyd y staff/Moodle, ac efallai y bydd yn dyddio os caiff ei argraffu. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo: 15/08/2011	**Rheolwr Cyfrifol: Deon Taith Dysgwyr**
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Materion Cwricwlwm, Ansawdd a Myfyrwyr	**Arweinydd Gweithredu: Dirprwy Bennaeth Cwricwlwm a Safonau**
Dyddiad adolygu: 14/09/2018	**Ar gael i fyfyrwyr: : Ydi**